
GRAFFEG

Awel a Glan

# Awel a Glan a'u Ffrind Newydd




Awdur: Jane Simmons
Oed: 3-7
Fformat: Clawr meddal
Maint: 250 x 250mm
Pris: £7.99

## Rhai geirau diddorol

Hoff
Fflapio
Chwyrnodd
Briwsion
Trist
Gwas y neidr
Cyffro

## Clawr

**Dewch i drafod**

Beth welwch chi ar y clawr?

Y teitl – enw'r llyfr.

Enw'r awdur a'r Darlunydd – Jane Simmons

Beth am ddarllen y teitl

Beth arall welwch chi?


Pwy yw pwy tybed? Awel yw'r ferch a Glan yw'r ci.

Pwy yw'r ffrind newydd?

**Beth am wneud**

Crëwch gychod o bapur neu o ddeunydd ailgylchu i'w hwylio yn y twba dŵr.

Arbrofwch i weld sawl peth gall y cwch ddal cyn iddo suddo.




## Tudalen fewnol

**Dewch i drafod**

Mae'r llyfr hwn wedi'i ysgrifennu i Neil.

Os mai eich llyfr chi yw hwn medrwch roi eich enw yn y blwch.

Mae Awel a Glan yn mynd am dro, pwy sydd yn eu dilyn?

**Beth am wneud**

Ewch am dro i goedwig, yn yr ardal leol ac edrychwch am siapiau diddorol neu gwrandewch ar y synau amrywiol..

Chwaraewch gêmau gyfeiriadau, ymlaen, yn ôl, i'r dde, i'r chwith.

*Awel a Glan a'u Ffrind Newydd* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 4 a 5

**Dewch i drafod**

Beth welwch chi?


Ydy Glan yn hapus?

Ble mae o?

Sawl gwas y neidr welwch chi?

**Beth am wneud**

Crëwch weision y neidr i'w gosod yn y coed neu eu hongian o'r nenfwd.



## Tudalen 6 a 7

**Dewch i drafod**

Mae Awel a Glan mewn..?


Beth arall sydd gerllaw i chwarae?

A welwch chi'r patrymau streipiog?

Pam eu bod nhw o dan ambarel?

**Beth am wneud**

Peintiwch longau o wahanol faint a'u haddurno gyda patrymau gwahanol, rhowch nhw o gylch arddangosfa hafaidd.



## Tudalen 8 a 9

**Dewch i drafod**


Beth sydd wedi glanio ar y llong?

Beth mae'r aderyn yn ei wneud?

Mae Awel yn dweud wrth Glan i rannu – ydych chi'n rhannu? Gyda phwy?

**Beth am wneud**

Cadwch siart o'r adar sy'n dod i lawnt yr ysgol, dysgwch eu henwau yn Gymraeg ac yn Saesneg.



## Tudalen 10 a 11

**Dewch i drafod**

Beth sy'n digwydd yn y darlun yma?


Pwy sy'n cwtsho gyda Glan?

Meddyliwch am eiriau eraill am cwtsho.

**Beth am wneud**

Dysgwch y gan 'Pump yn y Gwely' ac actiwch y gan mewn man digon o faint.

*Awel a Glan a'u Ffrind Newydd* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 12 a 13

**Dewch i drafod**

Pwy sydd yn y cwch gydag Awel a Glan?

Beth arall welwch chi yn yr harbwr?

Sawl cwch fedrwch chi eu cyfri?



## Tudalen 14 a 15

**Dewch i drafod**

Beth mae nhw'n ei wneud yn nhŷ Nain?

Welwch chi beth mae Nain yn rhoi i'r aderyn – hoff friwsion Glan.


Beth yw eich hoff bisgedi chi??

O na, oedd yn garedig i Glan eisiau'r aderyn i hedfan i ffwrdd?

**Beth am wneud**

Cynlluniwch brawf blasu a chrëwch siart o'r pump mwyaf blasus.

Trafodwch bod yn garedig –crëwch boster gan osod llun o wahanol blentyn yn wythnosol arno – bydd y plant eraill yn ysgrifennu neu dweud pan eu bod yn hoffi'r plentyn beth sy'n arbennig amdani/amdano.



## Tudalen 16 a 17

**Dewch i drafod**

Beth sydd wedi digwydd?


Sut mae pawb yn teimlo?

Ydy Glan yn hapus?

Pa ystafell yw hon ar y llong?

**Beth am wneud**

Dewch o hyd i wybodaeth am wahanol gartrefi, ble mae nhw, beth yw eu henwau, sut maent yn edrych.



## Tudalen 18 a 19

**Dewch i drafod**

Disgrifiwch y llun, beth welwch chi yma.

Mae Glan yn teimlo'n well nawr – beth amdanoch chi?

**Beth am wneud**

Trafodwch pethau sy'n eich gwneud yn hapus yn ystod amser cylch.



## Tudalen 20 a 21


**Dewch i drafod**

Beth gallwch chi weld yma –mae'r llong yn cael ei llywio.

Welwch chi'r siacedi diogeli?

Pa siapiau arall welwch chi?

*Awel a Glan a'u Ffrind Newydd* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 22 a 23

**Dewch i drafod**


Ymhle mae Glan yn cysgu?

Ydy e'n gyfforddus?

Ble ydych chi'n cysgu?

**Beth am wneud**

Crëwch gasgliad/ arddangosfa o eitemau crwn.



## Tudalen 24 a 25

**Dewch i drafod**


Pwy mae nhw'n mynd i ymweld gyda nawr?

Welwch chi'r lluniau?

Pam bod llun o'r aderyn gan Nain?

**Beth am wneud**

Argraffwch llun o bob plentyn, yna crëwch ffram ar gyfer y lluniau a'u haddurno.



## Tudalen 26 a 27


**Dewch i drafod**

Mae yna ddau was y neidr a dwy wydd – pan bod dwy neu ddau byddwn yn eu galw yn bâr.

Fedrwch chi feddwl am bethau eraill sy'n dod fel pâr?

**Beth am wneud**

Trefnwch y plant i ymwneud fel pâr –rhowch un cerdyn o bâr i bob un, rhaid iddynt ddod o hyd i'w pâr a dyma fydd eu cymar am y sesiwn.



## Tudalen 28 a 29

**Dewch i drafod**

Beth mae Awel am wneud?

Ydy Glan am fynd i bysgota?

Mae Mam yn y dŵr bas – bas yw'r gwrthgyferbyniad o dwfn.

**Beth am wneud**

Chwaraewch gêm bysgota am y sanau gan ddefnyddio magnedau.



## Tudalen 30 a 31

**Dewch i drafod**

Beth glywsant yn agosau?

Sut oeddynt yn teimlo nawr?

Hapus, llawn cyffro...

**Beth am wneud**

Crëwch garden neu boster croeso nol i aderyn.

*Awel a Glan a'u Ffrind Newydd* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Tudalen 32 a 33

**Dewch i drafod**

Pwy ddaeth nol i ddweud helo?

Oes lle ar y cwch i unrhywun arall?

Beth yw gair gwrthgyferbyniol llawn - gwag.



## Tudalen 34 a 35

**Dewch i drafod**

Pwy sydd yn y canol. Ar y dde/ ar y chwith?

Beth ddylai'r ffrindiau wneud nawr?

Beth hoffech chi wneud?

AWEL A GLAN:

**Awel a Glan a'u Ffrind Newydd**
ISBN 9781802580686

**Awel a Glan ac Anghenfil y Môr**
ISBN 9781802580747

**Awel a Glan a'r Morlo Bach**
ISBN 9781802580723

**Awel a Glan a'r Picnic Coll**
ISBN 9781802580709

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

*Awel a Glan a'u Ffrind Newydd* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.